



Addysg a coronafeirws: cwrdd ag anghenion pobl ifanc byddar mewn colegau

Diweddarwyd diwethaf: 4 Chwefror 2021

Cyflwyniad

Mae cyfyngiadau coronafeirws yn parhau i gyflwyno heriau enfawr i golegau, sydd â goblygiadau o ran sut mae pobl ifanc byddar yn cael mynediad at gymorth arbenigol. Rydym yn cydnabod y camau sylweddol y mae gweithwyr addysg proffesiynol yn eu cymryd i sicrhau parhad dysgu. Mae'r ddogfen friffio hon yn amlinellu nifer o gwestiynau y bydd lleoliadau am eu hystyried yn nhermau cymorth arbenigol i bobl ifanc byddar.

Er nad ein rôl ni yw rhoi cyngor iechyd cyhoeddus, rydym yn disgwyl bydd yna ystyriaeth ynghylch y risgiau i bobl ifanc fyddar unigol os na fyddant yn derbyn cefnogaeth arbenigol fel arfer, a bod risgiau o'r fath yn cael eu cydbwysu yn erbyn unrhyw faterion iechyd y cyhoedd. Rydym yn credu dylai unrhyw leihad mewn cefnogaeth arbenigol fod yn ddewis olaf, o ystyried y gallai tanseilio yn sylfaenol sut all pobl ifanc byddar gael mynediad at ddysgu. Hefyd gallai gael effaith sylweddol ar iechyd meddwl pobl ifanc byddar os na allant ddeall eu hathrawon neu eu cyfoedion tra ydynt yn y coleg.

Mae'r briff hwn wedi cael ei ddatblygu gan Gymdeithas Genedlaethol Plant Byddar gyda chefnogaeth gan Gymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar (BATOD) a'r Bartneriaeth Genedlaethol Nam ar y Synhwyrâu (NatSIP). Mae'n canolbwyntio ar gefnogaeth i bobl ifanc byddar mewn colegau prif ffrwd. Ond, gall nifer o'r egwyddorion a'r awgrymiadau hefyd fod yn werthfawr i ddarparwyr hyfforddiant annibynnol a cholegau arbenigol.

Egwyddorion

Yn ddiweddarach yn y briff hwn, amlinellwn sawl cwestiwn penodol efallai bydd colegau am eu hystyried. Nid ydym yn darparu atebion pendant, gan y bydd hyn yn dibynnu ar y cyd-destun unigol. Ond, mae yna sawl egwyddor y dylid eu hystyried wrth wneud unrhyw benderfyniad.

1. Na ddylid gwneud polisiâu cyffredinol (er enghraifft, mynnu bod yna un llwyfan dysgu o bell yn unig neu wahardd ymwelwyr allanol i gyd). Yn lle, rydym yn credu dylai unrhyw bolisi ystyried anghenion unigol pobl ifanc byddar, a, fel y mynegwyd yn gynharach, cydbwysu'r risgiau i iechyd y cyhoedd yn erbyn y risg i bobl ifanc unigol o beidio â derbyn y gefnogaeth sydd angen arnynt.
2. Dylid bod yna agwedd rhagweithiol. Rydym yn annog gweithwyr proffesiynol i barhau i fod yn greadigol, pragmatig a hyblyg mewn sicrhau bod pobl ifanc byddar yn cael mynediad llawn at eu dysgu, cymaint â phosib.
3. Dylai pobl ifanc byddar hefyd gael eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau am eu dysgu, asesiad a chefnogaeth a chael gwybod yn union beth sy'n digwydd. Lle bo'n briodol, hefyd mae'n fanteisiol i ymgynghori â rhieni/gwarcheidwaid a'u hysbysu.
4. Dylai Athrawon Plant Byddar neu unrhyw weithwyr arbenigol eraill sy'n gweithio gyda dysgwyr byddar gael eu cynnwys mewn unrhyw benderfyniadau ar sut y darperir cefnogaeth.
5. Dylai unrhyw leihad mewn cefnogaeth arbenigol fod yn ddewis olaf a gydag ymwybyddiaeth lawn am yr effaith ar bobl ifanc byddar unigol. Mae rhoi pobl ifanc byddar mewn sefyllfa lle na allant ddeall eu hathrawon neu eu cyfoedion yn annerbyniol ac anghynnaladwy. Hefyd gall roi colegau mewn perygl o

her gyfreithiol. Os penderfynir nad oes unrhyw ddewis arall ond i leihau rhywfaint o gefnogaeth arbenigol dros dro, disgwylwn fod trywydd archwilio clir sy'n nodi pa gamau lliniaru sydd ar waith. Dylai cynllunio gweithredu fod yn CAMPUS. Hefyd disgwylwn fod cynllun ar waith i sicrhau bod cefnogaeth ar gael i helpu pobl ifanc byddar i ddal i fyny. Gall hyn gynnwys cefnogaeth ychwanegol i ddal i fyny neu hyfforddiant un-i-un sy'n benodol ar gyfer eu hanghenion unigol.

Risgiau a materion allweddol

Mae'r tabl isod yn amlinellu sawl mater a risg penodol, cwestiynau allweddol i'w harchwilio a champau lliniaru posib. Ni fwriedir iddi fod yn hollgynhwysfawr a'r gobaith yw y byddai'n annog trafodaeth a chydweithio rhwng colegau, Athrawon Plant Byddar, pobl ifanc byddar a'u teuluoedd. Fel y mynegir yn gynharach, rydym yn annog gweithwyr proffesiynol i fod yn greadigol, pragmatig a hyblyg mewn sicrhau bod pobl ifanc byddar yn cael y gefnogaeth sydd angen arnynt, cymaint â phosib.

Mater/risg	Cwestiynau a materion allweddol	Camau lliniaru posib
Hygyrchedd asesiad ac addysg o bell	<p>Lle mae dysgu o bell ar waith, pa gamau a gymerir i sicrhau bod unrhyw ddysgu yn addas i bobl fyddar a bod pobl ifanc byddar yn gallu ei ddilyn?</p> <p>Lle mae pobl ifanc byddar yn cael eu cyfeirio at adnoddau ar-lein, a ydy'r coleg wedi gwirio bod yr adnoddau yn hygyrch i bobl ifanc byddar? Er enghraifft, a ddarparwyd capsiynau, a yw'n bosib gweld y siaradwr ar sgrin, ac a yw'r cynnwys yn ddigon gweledol ac yn hawdd i'w ddilyn?</p> <p>Gall asesiadau cwrs gael eu haddasu (e.e. cael eu gwneud ar-lein yn hytrach nag ar bapur) a all ddod ag anghenion mynediad newydd.</p>	<p>Wrth gyfeirio at adnoddau dysgu ar-lein neu ddefnyddio fideos sydd wedi'u cynhyrchu gan y coleg, sicrhau bod y rhain yn hygyrch i bobl ifanc byddar. Disgwyliwn fod is-deitlau a, lle mae pobl ifanc byddar yn defnyddio iaith arwyddion, fod yna fersiwn wedi'i dehongli, o leiaf. Lle y defnyddir is-deitlau awtomataidd (e.e. ar YouTube), bod y rhain yn cael eu golygu gan staff y coleg er mawyn gallu cywiro unrhyw gamgymeriadau. Lle mae cynnwys ar-lein yn cael ei greu gan y coleg, mae'n eithaf syml i ychwanegu capsiynau iddo yn annibynnol. Mae'r Gymdeithas Genedlaethol Plant Byddar hefyd wedi cynhyrchu canllaw ar gynnwys hygyrchⁱ a all hefyd fod yn ddefnyddiol.</p> <p>Lle cynigir dysgu o bell, talu am gymorth cyfathrebu ychwanegol (fel adroddwr lleferydd-i-destun o bell) a/neu sicrhau gall cymorth sy'n cael eu darparu yn barod (fel dehonglwr iaith Arwyddion Prydain neu weithiwr cymorth cyfathrebu) gael ei weld yn hawdd. Neu, mae gan rai llwyfannau dechnoleg adnabod lleferydd wedi'i galluogi. Ond nid ydynt yn hollol gywir o bell ffordd, felly bydd angen derbyn adborth parhaol gan y myfyriwr. Dylai'r person ifanc ddewis pa lwyfan i'w defnyddio cymaint ag sy'n ymarferol a dylai colegau sicrhau bod dysgwyr byddar yn deall yn llwyr sut i ddefnyddio'r nodweddion hygyrchedd.</p> <p>Gofyn am gyngor gan Athrawon Plant Byddar ar hygyrchedd ac addasrwydd unrhyw gynnig o ddysgu o bell, gan ddefnyddio cyngor gan Lywodraethau'r DU, Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar a Chymdeithas Genedlaethol Plant Byddar. Er enghraifft, mae'r Gymdeithas Genedlaethol Plant Byddar wedi cynhyrchu rhestr wirioⁱⁱ ar ddysgu o bell ar gyfer athrawon.</p>

Cyswllt agos gyda theuluoedd, fel y bo'n briodol, fel y gallant gefnogi dysgu person ifanc byddar gymaint â phosib.

Trefnu cefnogaeth arbenigol o bell (e.e. gan weithiwr cymorth cyfathrebu neu Athro Plant Byddar). Dylid cymryd camau i sicrhau bod y ddau barti â chyfarpar TG dibynadwy i alluogi hyn ac unrhyw gyfarpar angenrheidiol arall, er enghraifft clustffonau sy'n ffitio dros gymhorthion clyw. Dylid dilyn unrhyw bolisiâu diogelu ond dylent fod yn gymesur â'r sefyllfa ac wedi'u cydbwysu â'r risg i bobl ifanc unigol os nad ydynt yn derbyn y gefnogaeth arbenigol sydd angen arnynt. Gall y rhagofalon diogelu gynnwys, er enghraifft, sicrhau bod pobl ifanc mewn 'lle sy'n cael ei rhannu' ar gyfer unrhyw gyfarfodydd ar-lein.

Lle mae coleg yn darparu cymorth radio i berson ifanc, eu galluogi nhw i'w cymryd gartref er mwyn gallu gwella mynediad at unrhyw gyfleoedd dysgu o bell. Sicrhau bod gan bobl ifanc byddar unrhyw offer ychwanegol angenrheidiol (er enghraifft, ceblau i gysylltu'r cymorth radio â gliniadur).

Sicrhau bod dysgwyr byddar sy'n gwneud asesiadau dal i gael mynediad at drefniadau mynediad cyfatebol (e.e. amser ychwanegol neu iaith wedi'i haddasu) y byddent wedi cael ar gyfer arholiadau ac asesiadau o'r blaen. Efallai bydd angen is-deitlau neu gymorth cyfathrebu am unrhyw ddefnydd fideo neu sain ar gyfer asesiadau ar-lein.

Mater/risg	Cwestiynau a materion allweddol	Camau lliniaru posib
<p>Mannau dysgu dros dro a newidiadau i lunweddau ystafelloedd dosbarth</p>	<p>Deallwn fod nifer o ardaloedd yn ystyried cyflwyno dysgu mewn manau dysgu dros dro i greu lle ychwanegol, neu i gyflwyno gwersi yn yr awyr agored.</p> <p>Hefyd, rydym yn gwybod bod nifer fawr o ardaloedd am newid llunweddau ystafelloedd dosbarth fel bod y dysgwyr i gyd yn wynebu'r blaen. Gall hyn wneud pethau'n anoddach i ddysgwyr byddar i ddarllen gwefusau neu ddeall eu cyfoedion.</p> <p>Sut bydd yr amodau acwsteg mewn unrhyw fannau dros dro a ddefnyddir? Gwyddys bod portacabins a neuaddau pentref, er enghraifft, fel arfer ag 'atsain' ac yn amgylcheddau gwranddo anodd</p>	<p>Adnabod pa ystafelloedd sydd â'r amodau dysgu gorau posib a sicrhau bod grwpiau neu swigod sy'n cynnwys pobl ifanc byddar yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer ystafelloedd o'r fath.</p> <p>Sicrhau bod anghenion gwranddo, iaith a chyfathrebu pobl ifanc yn cael eu hystyried wrth feddwl am leoli seddi, sŵn cefndir posib a sut mae gwybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn unrhyw fannau dysgu dros dro.</p> <p>Sicrhau bod cymhorthion radio yn cael eu defnyddio'n effeithiol.</p> <p>Atgoffa athrawon am bwysigrwydd ail-fynegi neu aralleirio'r hyn mae dysgwyr eraill wedi'i ddweud mewn unrhyw drafodaeth dosbarth, neu alluogi dysgwyr byddar i droi i wynebu'r disgybl sy'n siarad.</p> <p>Gofyn am gyngor ar acwsteg unrhyw fan dysgu dros dro gan Athro Plant Byddar neu awdiolegydd addysg. Dylid nodi ni fydd systemau maes sain cludadwy yn gweithio yn dda mewn unrhyw fan dysgu dros dro sydd ag acwsteg wael yn barod a gall wneud y sefyllfa yn waeth.</p>

Mater/risg	Cwestiynau a materion allweddol	Camau lliniaru posib
<p>Lleihad mewn mynediad at gefnogaeth arbenigol o fewn y coleg (e.e. cynorthwywyr dysgu neu weithwyr cymorth cyfathrebu)</p>	<p>Beth fydd yr effaith ar berson ifanc byddar os nad ydynt yn derbyn y gefnogaeth arferol gan gynorthwydd dysgu neu weithiwr cymorth cyfathrebu? Beth yw'r risg y byddai'r lleihad yn y gefnogaeth hon yn golygu bod y person ifanc ddim yn gallu deall neu gael mynediad at ddysgu?</p>	<p>Ein barn yw, lle bo gan gynorthwywyr dysgu neu weithwyr cymorth cyfathrebu rolau penodol mewn cefnogi pobl ifanc byddar unigol, ni ddylent gael eu hadleoli i rolau eraill. Mewn nifer o achosion, gall y gefnogaeth gan gynorthwydd dysgu neu weithiwr cymorth cyfathrebu gael ei nodi mewn datganiad neu gynllun person ifanc. Dylid cymryd camau i sicrhau bod unrhyw gynorthwydd dysgu neu weithwyr cymorth cyfathrebu sydd â chyfrifoldeb am sicrhau bod person ifanc byddar penodol yn gallu cymryd rhan yn y coleg yn rhan o'r un 'swigen' a'r person ifanc.</p> <p>Mae gan rhai cynorthwywyr dysgu rôl fwy cyffredinol sydd ddim yn cynnwys darparu cefnogaeth unigol uniongyrchol i berson ifanc byddar unigol. Yn dibynnu ar natur y dasg ac anghenion unigol, gellir ystyried efallai bydd rhoi'r person ifanc yn yr un grŵp a'i athro neu gynorthwydd dysgu arferol yn fwyaf buddiol iddynt. Gall hyn gynnwys grwpio pobl ifanc a fydd yn elwa o gymorth gan gynorthwywyr dysgu yn yr un swigen.</p> <p>Hyblygrwydd ychwanegol gyda'r cwricwlwm i sicrhau bod cymorth er mwyn gallu dal fyny neu hyfforddiant un-i-un sydd wedi'u targedu ar waith.</p>

Mater/risg	Cwestiynau a materion allweddol	Camau lliniaru posib
<p>Lleihad mewn mynediad at gefnogaeth arbenigol lle mae hyn yn cael ei darparu gan unrhyw staff arbenigol yn ymweld â safle'r coleg (e.e. Athro Plant Byddar peripatetig neu therapydd lleferydd ac iaith)</p>	<p>Beth yw'r effaith ar y person ifanc unigol os na all yr Athro Plant Byddar neu arbenigwr allanol arall ddarparu cefnogaeth wyneb-yn-wyneb i ddysgwyr unigol a/neu staff coleg?</p> <p>A oes yna risg y bydd lleihad mewn mynediad yn rhwystro gallu'r myfyriwr i gael mynediad at ddysgu?</p>	<p>I gynnal unrhyw gyfarfodydd yn y coleg mewn ystafell sydd wedi'i hawyru'n dda a all gael ei glanhau yn hawdd ar ôl y cyfarfod. Dylid nodi gall cynnal cyfarfodydd yn yr awyr agored fod yn anodd i bobl ifanc byddar oni bai fod lefel y sŵn cefndir yn isel iawn.</p> <p>I ofyn i ymwelwyr i gadarnhau byddant yn dilyn gofynion cadw pellter cymdeithasol ac yn darparu cofnodion am unrhyw ymdrechion profi ac olrhain y gallai fod eu hangen. Wrth i brofion cael eu cyflwyno, caniatáu i arbenigwyr i gael mynediad at unrhyw brofi a all fod ar waith o fewn y coleg.</p> <p>I gynnal cyfarfodydd, yn cynnwys sesiynau un-i-un gyda dysgwyr, ar-lein. Mae hyn yn cymryd bydd y person ifanc neu staff y coleg yn derbyn y cyfarpar TG sydd ei angen arnynt, amser a lle i allu gwneud hyn yn effeithiol. Dylid dilyn unrhyw bolisiau diogelu ond dylent fod yn gymesur â'r sefyllfa ac wedi'u cydbwysu â'r risg i bobl ifanc unigol os nad ydynt yn derbyn y gefnogaeth arbenigol sydd angen arnynt. Gall y rhagofalon diogelu gynnwys, er enghraifft, sicrhau bod pobl ifanc mewn 'lle sy'n cael ei rhannu' ac yn cadw pellter cymdeithasol ar gyfer unrhyw gyfarfodydd ar-lein.</p> <p>Sicrhau bod Athrawon Plant Byddar neu staff arbenigol allanol arall yn gwisgo rhywbeth i orchuddio eu hwynebau wrth iddynt ddod i mewn ac yn symud trwy'r coleg. Dylid tynnu'r gorchudd pan ydynt gyda'r person ifanc byddar.</p>

Mater/risg	Cwestiynau a materion allweddol	Camau lliniaru posib
<p>Lleihad mewn mynediad at gyfarpar arbenigol sy'n cael eu rhannu gyda phobl eraill (fel cymhorthion radio)</p>	<p>Beth yw'r effaith ar y dysgwr, yn nhermau mynediad at addysg a'u lles emosiynol, os na allent glywed eu hathro yn glir?</p> <p>Noder, os oes yna unrhyw newidiadau i acwsteg ystafell ddosbarth a/neu yng ngoleuni cadw pellter cymdeithasol, mae defnyddio cymhorthion radio yn debygol o ddod yn fwy, nid yn llai, pwysig, gan gynnwys ymhlith pobl ifanc sydd ddim wedi defnyddio cymhorthion radio o'r blaen.</p>	<p>Pwysleisio'r anghenion hylendid arferol – h.y. golchi dwylo yn rheolaidd.</p> <p>Darparu gel llaw gyda chymorth radio fel gall athro olchi ei ddwylo yn hawdd pob tro maent yn cyffwrdd â'r cymorth radio.</p> <p>Darparu cadach diheintio fel gall cymorth radio gael ei lanhau cyn ac ar ôl iddo gael ei ddefnyddio. Noder, mae'n rhaid i hyn gael ei wneud yn ofalus, yn dilyn canllawiau'r gwneuthurwyr, i osgoi damwain i'r ddyfais. Dylid gofyn am gyngor a chefnogaeth gan eich gwasanaeth addysg arbenigol i bobl ifanc byddar ar hyn. Mae Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar (BATOD) hefyd wedi darparu canllawiauⁱⁱⁱ.</p> <p>Mae gan rai cymhorthion radio swyddogaeth cynadleda neu 'cyfeirio'. Gall gofyn i bobl ifanc byddar gymryd cyfrifoldeb am leoli unrhyw gymorth radio sydd â'r swyddogaeth hon mewn ffordd sy'n gallu clywed llais yr athro yn glir, yn ogystal â chyfoedion mewn unrhyw drafodaeth grŵp, heb i'r athro gorfod cyffwrdd â'r cymorth radio fod yn opsiwn. Ond:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd hyn yn golygu bydd rhaid i'r athro aros yn agos i'r cymorth radio • Mae hefyd yn cymryd bod y person ifanc byddar yn hyderus yn defnyddio'r cymorth radio a gellir dibynnu arnynt i symud y cymorth radio i le mae ei angen. <p>Atgoffa athrawon am bwysigrwydd ail-fynegi neu aralleirio'r hyn mae dysgwyr eraill wedi'i ddweud mewn unrhyw drafodaeth dosbarth, neu roi amser i ddysgwyr byddar i droi i wynebu'r myfyriwr sy'n siarad.</p>

Mater/risg	Cwestiynau a materion allweddol	Camau lliniaru posib
<p>Hyfforddiant un-i-un a rhaglenni dal i fyny</p>	<p>Bydd nifer o bobl ifanc byddar yn gymwys ar gyfer hyfforddiant ffurfiol a rhaglenni dal i fyny o'r math a chyflwynir i bob person ifanc.</p> <p>Pa gamau a gymerir i sicrhau bod y person sy'n darparu'r hyfforddiant neu sesiwn dal i fyny yn ymwybodol o fyddardod a bod unrhyw ymyriad o'r fath wedi'i deilwra ar gyfer anghenion pobl ifanc byddar?</p>	<p>Darparu gwybodaeth a hyfforddiant ymwybyddiaeth o fyddardod i hyfforddwyr, yn ogystal â chynghor clir am yr effaith mae byddardod yn cael ar ddysgu person ifanc unigol. Dylid gofyn am gyngor gan Athro Plant Byddar i gefnogi hyn.</p> <p>Mae'n rhaid i raglenni dal i fyny ac ymyriadau'r coleg fod yn hygyrch i bobl ifanc byddar. Dylid gofyn am gyngor gan Athro Plant Byddar i gefnogi hyn.</p>
<p>Lles emosiynol pobl ifanc byddar</p>	<p>Gwyddys yn barod bod pobl ifanc byddar yn fwy tebygol o les emosiynol is. Mae'n debygol bod y cyfyngiadau wedi cael effaith negyddol ar les emosiynol nifer fawr o bobl ifanc. Gall pobl ifanc byddar wedi teimlo eu bod wedi'u hynysu ac yn unig, yn fwy nag arfer, yn ystod y cyfnod hwn</p> <p>A oes angen ymgymryd ag asesiad a/neu adolygu datganiad neu gynllun y dysgwr?</p>	<p>Sefydlu rhaglenni cymorth cyfoedion i bobl ifanc byddar, fel y bo'n briodol ac yn unol ag anghenion cadw pellter cymdeithasol</p> <p>Lle mae dosbarthiadau wedi'u rhannu yn grwpiau llai neu 'swigod', sicrhau bod dysgwr byddar mewn grŵp gydag un neu ddau o'i ffrindiau a bod y dysgwr yn gallu eu deall yn hawdd neu ffrindiau sy'n gallu darparu cymorth cyfoedion.</p> <p>Sicrhau bod unrhyw ymyriadau neu raglenni bugeiliol/cefnogaeth yn ystyried anghenion pobl ifanc byddar. Hefyd sicrhau bod unrhyw gynghorwyr y coleg yn ymwybodol o fyddardod ac yn gallu cwrdd ag anghenion pobl ifanc byddar. Mae'n bosib na fydd pobl ifanc byddar yn gallu ymuno â rhai ymyriadau fel 'amser cylch ar-lein' a gall hyn achosi gofid.</p> <p>Lle mae pobl ifanc byddar yn cael eu cyfeirio at adnoddau ar-lein, gwirio bod y rhain yn hygyrch ac yn briodol i bobl ifanc byddar.</p>

		<p>Ystyried a oes angen i'r coleg wneud atgyfeiriad i gefnogaeth bellach, gan gynnwys gan Wasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a'r Glasoed (CAMHS) (Lloegr) neu unrhyw gysylltiadau sydd wedi'u henwi ar gyfer cymorth iechyd meddwl i bobl ifanc byddar yn eich ardal.</p>
--	--	--

Mater/risg	Cwestiynau a materion allweddol	Camau lliniaru posib
Hygyrchedd lleoliadau gwaith	Gall mesuriadau cadw pellter cymdeithasol mae cyflogwyr sy'n cynnig lleoliadau gwaith, prentisiaethau, hyfforddeiaethau ac interniaethau â chymorth yn rhoi ar waith amrywio o'r rheini mewn coleg a chyflwyno heriau newydd i bobl ifanc byddar.	<p>Darparu canllawiau i gyflogwyr fel gall asesiadau risg cyflogwyr ystyried y problemau a rhwystrau gall gweithwyr byddar eu hwynebu oherwydd mesuriadau cadw pellter cymdeithasol, defnyddio gorchuddion wyneb a gweithio o bell. Er enghraifft, cyngor gan Business Disability Forum^{iv} ar weithio o bell.</p> <p>Cefnogi dysgwyr byddar i eiriol dros eu hanghenion yn y gweithle. Er enghraifft, siarad â pherson ifanc byddar am rai o'r pethau a all fod yn broblem a pha sgysiau bydd yn rhaid eu cael gyda chyd-weithwyr mewn lleoliad gwaith.</p>
Masgiau a gorchuddion wyneb	Bydd defnyddio masgiau neu orchuddion wyneb mewn ystafelloedd dosbarth yn cael effaith sylweddol ar allu pobl ifanc byddar i gyfathrebu, i'r fath raddau a all mynychu'r coleg fod yn ddibwrpas.	<p>Os penderfynwyd bod athrawon i wisgo masgiau mewn ystafelloedd dosbarth, bydd yn bwysig i gynnal cyfarfod rhwng y lleoliad addysg, y dysgwr byddar ac unrhyw staff cymorth arbenigol i adnabod y risgiau i fynediad pobl ifanc byddar at ddysgu a'u lles emosiynol, ac i adnabod pa addasiadau rhesymol y dylid eu cyflwyno.</p> <p>Yn dibynnu ar anghenion unigol y dysgwr byddar, gall yr addasiadau rhesymol hyn gynnwys, er enghraifft, gwisgo amddiffynwyr neu fasiau wyneb clir, cynnydd mewn defnydd technoleg cymhorthion radio, hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o fyddardod ychwanegol.</p> <p>Dylai colegau fod yn ymwybodol hefyd o'r eithriad sydd ar waith sydd yn caniatáu i rywun dynnu ei orchudd neu fasn wyneb am gyfnod byr os bydd angen iddynt gyfathrebu â rhywun sy'n dibynnu ar ddarllen gwefusau.</p> <p>Mae mwy o wybodaeth ar gael ym mhapur safbwynt^v y Gymdeithas Genedlaethol Plant Byddar ar orchuddion a masgiau wyneb mewn addysg ac yn y ddogfen a gynhyrchir gan BATOD.^{vi}</p>

Mwy o wybodaeth

Mae [blog i weithwyr proffesiynol](#)^{vii} Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn cynnwys mwy o wybodaeth am y coronafeirws a chefnogaeth i blant a phobl ifanc byddar ac yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd, mewn ymateb i unrhyw newidiadau mewn canllawiau'r llywodraeth a/neu adborth gan weithwyr proffesiynol.

Hefyd gallwch gysylltu â [llinell gymorth](#)^{viii} y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar os hoffech wybodaeth, cyngor neu gefnogaeth bellach. Hefyd gallwch [gyfeirio teuluoedd](#)^{ix} atynt os byddent yn elwa o'u cefnogaeth.

Mae ystod o adnoddau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws hefydd ar gael trwy [BATOD](#)^x a [Phartneriaeth Genedlaethol Nam ar y Synhwyr](#)^{xi}

Ôl-nodion

Mae'r cyfeiriadau at ganllaw'r llywodraeth yn gywir o 2 Chwefror 2021

- ⁱ www.ndcs.org.uk/documents-and-resources/how-to-make-your-resources-accessible-to-deaf-children-and-young-people/
- ⁱⁱⁱ www.ndcs.org.uk/blog/deaf-friendly-remote-learning-a-checklist-for-teachers/
- ⁱⁱⁱ www.batod.org.uk/resource/uk-assistive-listening-technology-working-group-and-batod-joint-advice/
- ^{iv} businessdisabilityforum.org.uk/knowledge-hub/resources/webinar-covid-19-and-supporting-deaf-colleagues/
- ^v www.ndcs.org.uk/media/6209/face-covering-in-education-position-paper.pdf
- ^{vi} www.batod.org.uk/batod-update-in-relation-to-face-coverings-in-education-settings/
- ^{vii} www.ndcs.org.uk/blog/coronavirus-and-support-for-deaf-children-information-for-professionals/
- ^{viii} www.ndcs.org.uk/helpline
- ^{ix} www.ndcs.org.uk/our-services/services-for-families/helpline/referral-form-for-professionals/
- ^x www.batod.org.uk/resource/suggested-resources-from-batod-members/
- ^{xi} www.natsip.org.uk/coronavirus-advice-and-resources